Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa

www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

**23.1.26**

**Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau**




Rydym yn falch iawn o rannu'r newyddion gwych ein bod **wedi ennill y Wobr Arian "Ysgolion sy'n Parchu Hawliau"**!

Hoffem ddiolch yn fawr i Miss Jenkins am ei gwaith caled a'i hymroddiad di-flino, yn ogystal â'n disgyblion a'n Senedd yr Ysgol am eu cyfraniad arbennig. Mae'r wobr hon yn dyst i'w hymdrechion nhw, a hefyd i ymrwymiad ein hysgol gyfan i hawliau plant.

I ennill y Wobr Arian, roedd yn rhaid i ni ddangos bod hawliau plant wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Roedd hyn yn cynnwys dangos bod disgyblion yn deall eu hawliau, bod staff yn hyrwyddo iaith ac ymddygiad sy'n parchu hawliau, ac bod ein polisïau a'n trefnau dyddiol yn adlewyrchu CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

Bu'n rhaid i ni hefyd ddarparu tystiolaeth o waith ein Senedd Ysgol a'n grwpiau llais disgyblion, dangos sut mae hawliau'n gysylltiedig â dysgu ar draws y cwricwlwm, a dangos sut rydym yn cynnwys teuluoedd a'r gymuned ehangach. Edrychodd yr aseswyr yn ofalus ar sut mae disgyblion yn cymryd rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac ar sut rydym yn meithrin amgylchedd diogel, parchus a chynhwysol i bawb.

Rydym yn hynod falch o'r cyflawniad hwn ac yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu ein darpariaeth fel ysgol sy'n parchu hawliau.

**Rights Respecting School's Award**

We are delighted to share the fantastic news that our school has been awarded the **Silver "Rights Respecting Schools" Award!**

We would like to express our sincere thanks to Miss Jenkins for her hard work and dedication, as well as to our pupils and School Parliament for their outstanding contribution. This award reflects their efforts and the whole school's commitment to children's rights.

To achieve the Silver Award, we had to demonstrate that children's rights are embedded across all aspects of school life. This included showing that pupils understand their rights, that staff promote rights-respecting language and behaviour, and that our policies and daily routines reflect the UNCRC (United Nations Convention on the Rights of the Child).

We also provided evidence of the work of our School Senedd (Parliament) and pupil voice groups, showed how rights are linked to learning across the curriculum, and demonstrated how we involve families and the wider community. The assessors looked closely at how pupils take an active role in decision-making and how the school fosters a safe, respectful and inclusive environment for all.

We are extremely proud of this achievement and look forward to continuing our journey as a Rights Respecting School.

**Tim Rygbi'r Ysgol – Perfformiad Ardderchog a Chit Newydd!**

Hoffem longyfarch tîm rygbi'r ysgol ar berfformiad gwych yn eu gêm 10 bob ochr gyntaf yn erbyn Ysgol Bro Eirwg ddydd Gwener diwethaf. Er mai dyma'r tro cyntaf i'n tîm chwarae yn y fformat yma – ac yn erbyn ysgol sydd â llawer mwy o brofiad – collon ni 4 cais i 2 yn unig, gan ddangos ysbryd tîm, gwaith caled a chryfder gwirioneddol.

Rydym yn hynod falch o bob un ohonynt ac yn edrych ymlaen at weld y tîm yn datblygu ymhellach dros y tymor.

Diolch i Coles Plastering and Construction am ein noddi a phrynu cit rygbi newydd sbon i ni! Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.

**School Rugby Team – Excellent Performance and a new kit!**

We would like to congratulate the school rugby team on an outstanding performance in their first ever 10-a-side match against Ysgol Bro Eirwg last Friday. Considering it was their very first time playing in this format – and against a school with far more experience – losing by only **4 tries to 2** was a fantastic achievement. The team showed real spirit, hard work and determination.

We are extremely proud of every one of them and look forward to seeing the team continue to grow throughout the season.

Thank you to Coles Plastering and Construction for sponsoring us and providing a brand-new rugby kit! We really appreciate your support.





**<u>Gwobr Arian "Rail Safe" Friendly</u>**

Rydym yn falch iawn o rannu'r newyddion ein bod wedi **ennill y Wobr Arian Rail Safe Friendly**! Mae'r wobr hon yn cydnabod ein hymrwymiad i gadw ein disgyblion yn ddiogel ac i'w haddysgu am ddiogelwch ar y rheilffyrdd.

Trwy'r rhaglen hon, mae ein disgyblion wedi dysgu am beryglon y rheilffyrdd, sut i gadw'n ddiogel wrth deithio, a pham mae ymddygiad cyfrifol ger traciau a gorsafoedd mor bwysig. Rydym yn falch iawn o'u hymdrechion a'u hymwybyddiaeth gynyddol.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ennill y wobr hon.




**<u>Silver Rail Safe Friendly Award</u>**

We are very pleased to share that our school has achieved the Silver Rail Safe Friendly Award! This award recognises our commitment to keeping pupils safe and helping them learn about rail safety.

Through this programme, our pupils have learned about the dangers around railways, how to stay safe when travelling, and why responsible behaviour near tracks and stations is so important. We are extremely proud of their efforts and their growing awareness.

Thank you to everyone who helped us achieve this award.

**<u>Gweithdy Celf CISP Blwyddyn 6</u>**

Hoffem ddiolch yn fawr i CISP Multimedia am ddarparu gweithdy celf ysbrydoledig i'n disgyblion Blwyddyn 6. Maent wedi bod yn gweithio ar greu llinell amser o hanes yr ysgol i goffáu ein pen-blwydd yn 20 oed eleni!

Yn ystod y gweithdy, bu'r disgyblion yn arbrofi gyda thechnegau celf amrywiol, gan ddatblygu eu sgiliau a'u hyder creadigol. Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu drwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld y gwaith gorffenedig yn cael ei arddangos yng ngyntedd yr ysgol yn fuan.

**<u>Year 6 CISP Workshop</u>**

We would like to thank CISP Multimedia for delivering an inspiring art workshop to our Year 6 pupils. They have been working on creating a timeline of the school's history to celebrate our 20th anniversary this year!

During the workshop, the pupils experimented with a range of artistic techniques, developing their skills and creative confidence. This project has been funded through a grant from the Arts Council of Wales, and we are very much looking forward to seeing the finished work displayed in the school foyer soon.

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

**Gwasanaeth Cynghorau/Senedd**




Cymerodd ein cynghorau amrywiol a'n Senedd yr ysgol gyfrifoldeb o'n gwasanaeth bore Llun yr wythnos hon, gan adrodd ar eu gwaith hyd yma ac amlinellu eu targedau ar gyfer y tymor.

Diolch o galon i'n Cewri Cymreictod, Arwyr Eco, Dewiniaid Digidol, Griw Cynhwysiant, ac aelodau ein Senedd am eu cyflwyniadau gwych. Mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn arbennig iawn ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n hysgol.

**Committee/Parliament Assembly**

Our various pupil councils and the School Senedd took responsibility for leading our Monday morning assembly this week, sharing updates on their work so far and outlining their targets for the term.

A huge thank you to our Welsh Language Giants, Eco Heroes, Digital Wizards, Inclusion Crew, and the members of our School Senedd for their excellent presentations. The work they are doing is truly outstanding and makes a real difference to our school community.

**Gweithdai Celf gyda'r Artist Lio Cheung**



Bydd disgyblion o Flwyddyn 1–6 yn cymryd rhan mewn gweithdy celf arbennig gyda'r artist Lio Cheung yn fuan (dyddiadau yn y dyddiadur). Bydd y gweithdai'n canolbwyntio ar y thema Cytgord, ac maent yn cael eu hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae hwn yn gyfle gwych i'n disgyblion weithio gyda artist proffesiynol a datblygu eu sgiliau creadigol.

Bydd angen cardbord ar bob blwyddyn ar gyfer eu gweithdy. Mae gennym rywfaint yn yr ysgol, ond bydd angen mwy. Os gall disgyblion ddod ag unrhyw gardbord glân, ailgylchadwy ar ddiwrnod eu gweithdy (neu cyn hynny), byddai'n help mawr iawn.

**Art Workshops with Artist Lio Cheung**

Pupils from Years 1–6 will soon be taking part in a special art workshop led by the artist Lio Cheung (dates in the diary) . The sessions will explore a Harmony theme and are being funded by the Arts Council of Wales. This is a fantastic opportunity for our learners to work with a professional artist and develop their creative skills.

Each year group will need cardboard for their workshop. We do have some available in school, but we will need more. If pupils are able to bring in any clean, recyclable cardboard on the day of their workshop (or beforehand), it would be greatly appreciated.

Thank you for your support — we're looking forward to seeing the wonderful artwork the pupils create.

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663



Pennaeth/Headteacher:
Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy:
Miss Bethan Jenkins




**Cais am hen fyrddau**

Rydym yn chwilio am unrhyw hen fyrddau nad oes eu hangen ar deuluoedd mwyach. Rydym wedi dechrau gwersi gwaith coed yn ddiweddar, ac mae'r disgyblion angen hen fyrddau cadarn y gallant eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau fel taro hoelion i mewn i bren. Os oes gennych unrhyw beth addas, dewch i mewn i roi gwybod i Mrs Boffy/Swyddfa'r Ysgol.

**Old Tables Request**

We are looking for any old tables that families no longer need. We have recently started woodwork sessions, and the pupils need sturdy old tables they can use for activities such as hammering nails into wood. If you have anything suitable, please pop in and let Mrs Boffy/School Office know.

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

**<u>Ynys Môn 2026 | Urdd Gobaith Cymru</u>**

**Mae'n dymor Eisteddfod yr Urdd unwaith eto!**

**Beth yw Eisteddfod yr Urdd? Mae Eisteddfod yr Urdd yn rhoi cyfle i ddisgyblion gystadlu mewn ystod eang o gystadlaethau, gan gynnwys perfformiadau unigol, llefaru, cystadlaethau offerynnol a digwyddiadau grŵp.**

**Tri Cymal Eisteddfod yr Urdd**

**1.Eisteddfod Leol (Eisteddfod Cylch)**

Eleni, cynhelir yr Eisteddfod Leol yn Ysgol Bro Edern ar ddydd Sadwrn, 7fed o Fawrth. Bydd disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion o glwstwr Bro Edern. Bydd yr enillwyr yn symud ymlaen i'r rownd nesaf, yr Eisteddfod Sirol.

**2. Eisteddfod Sir (Eisteddfod Sir)**

Cynhelir yr Eisteddfod Sir hefyd yn Ysgol Bro Edern, ar ddydd Sadwrn 21 o Fawrth. Bydd disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion o Glwstwr Glantaf. Bydd cystadleuwyr llwyddiannus wedyn yn symud ymlaen i'r rownd derfynol, yr Eisteddfod Genedlaethol.

**3. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal eleni yn Ynys Môn yn ystod hanner tymor y Sulgwyn (hanner tymor yr haf). Bydd disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion o bob cwr o Gymru.

**Aelodaeth yr Urdd**

I gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, rhaid i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd. (**Rhaid adnewyddu aelodaeth** bob blwyddyn.) Gallwch gofrestru eich plentyn gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:
https://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/mon-2026/cystadlu-yn-eisteddfod-yr-urdd-2025/

Cystadlu yn yr Urdd (Cystadlaethau Unigol) Yn unol â gweledigaeth yr ysgol, rydym am sicrhau bod pob disgybl sy'n dymuno cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn cael y cyfle i wneud hynny. Fel ysgol, byddwn yn uwchlwytho'r caneuon unigol a'r darnau llefaru unigol i gyfrifon Google Class/SeeSaw ar gyfer disgyblion o'r Dderbynfa i Flwyddyn 6. Bydd y rhain yn cynnwys:

• Copi o'r geiriau

• Clipiau sain i gefnogi dysgu ac ymarfer

Rydym yn annog disgyblion i ymarfer yr unawd a'r darnau llefaru fel gwaith cartref. Fodd bynnag, bydd y darnau hefyd yn cael eu dysgu yn yr ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn gallu eu dysgu.

**Bydd yr ysgol yn cofrestru eich plentyn i gystadlu ar Borth yr Urdd ond mae angen i chi wneud yn siŵr eu bod yn aelodau fel y mae'n ymddangos ar y porth os ydyn nhw ai peidio.**

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Pennaeth/Headteacher:
Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy:
Miss Bethan Jenkins

**<u>Eisteddfod yr Urdd: Ynys Mon 2026</u>**

**It's Eisteddfod yr Urdd season once again!**

**What is Eisteddfod yr Urdd? Eisteddfod yr Urdd gives pupils the opportunity to compete in a wide range of competitions, including solo performances, recitation, instrumental competitions and group events.**

**The Three Stages of Eisteddfod yr Urdd**

**1.Local Eisteddfod (Eisteddfod Cylch)**

This year, the Local Eisteddfod will be held at Ysgol Bro Edern on Saturday, 7th March. Pupils will compete against schools from the Bro Edern cluster. Winners will progress to the next round, the County Eisteddfod.

**2. County Eisteddfod (Eisteddfod Sir)**

The County Eisteddfod will take place also at Ysgol Bro Edern, on Saturday 21st March. Pupils will compete against schools from The Glantaf Cluster. Successful competitors will then progress to the final round, the National Eisteddfod.

**3. Urdd National Eisteddfod**

The Urdd National Eisteddfod will be held this year in Anglesey during Whitsun half-term (summer half-term). Pupils will compete against schools from across Wales.

**Urdd Membership**

To compete in Eisteddfod yr Urdd, your child must be a member of the Urdd. (Membership must be renewed annually.) You can register your child using the following link: [https://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/mon-2026/cystadlu-yn-eisteddfod-yr-urdd-2025/](https://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/mon-2026/cystadlu-yn-eisteddfod-yr-urdd-2025/)

Competing in the Urdd (Individual Competitions) In line with the school's vision, we want to ensure that all pupils who wish to compete in Eisteddfod yr Urdd are given the opportunity to do so. As a school, we will upload the solo songs and individual recitation pieces to the Google Class accounts/SeeSaw for pupils from Reception to Year 6. These will include:

• A copy of the words

• Audio clips to support learning and practice

We encourage pupils to practise the solo and recitation pieces as homework. However, the pieces will also be taught in school to ensure that every pupil can learn them.

**The school will register your child to compete on the Urdd Portal but you need to make sure they are members as it appears on the portal if they are or not.**

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Pennaeth/Headteacher:
Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy:
Miss Bethan Jenkins

**Atgoffa: Parcio yn Stad Bayside**

Hoffem eich atgoffa i fod yn ystyriol o'n cymdogion wrth barcio yn y Bayside Estate. Nid oes angen parcio yno gan fod maes parcio LIDL drws nesaf, ar draws y ffordd.

Rydym wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion, felly gofynnwn yn garedig i chi fod yn gwrtais a meddwl am erail l wrth adael a chasglu eich plant.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.




**Reminder: Parking in Bayside Estate**

We would like to remind you to be mindful of our neighbours when parking in the Bayside Estate. There is no need to park there as the LIDL car park is just across the road.

We have received several complaints from residents, so we kindly ask that you are courteous and considerate of others when dropping off and collecting your children.

Thank you for your cooperation.

**Ymweliad Iolo Williams / Iolo Williams Visit**



Rydym yn falch iawn o'ch hysbysu y bydd disgyblion o Flwyddyn 2–6 yn cael ymweliad arbennig gan **Iolo Williams** ar **Ionawr 28ain**. Fel rhan o'i ymweliad, mae wedi cytuno'n garedig i gymryd rhan mewn **sesiwn Holi ac Ateb**, ac mae arnom angen eich help i gasglu cwestiynau gwych!

Bydd y **cwestiynau gorau** yn cael eu dewis, a bydd y disgyblion hynny'n cael y cyfle i ofyn eu cwestiwn yn uniongyrchol i Iolo ei hun.

Anfonwch gwestiwn eich plentyn drwy **Seesaw**, neu ysgrifennwch ef ar ddarn o bapur a'i roi i athro'r dosbarth.

Rydym yn edrych ymlaen at weld syniadau'r plant!


We are very excited to let you know that pupils from Years 2–6 will receive a special visit from the naturalist Iolo Williams on 28th January. As part of his visit, he has kindly agreed to take part in a Q&A session, and we need your help to gather some brilliant questions!

The best questions will be chosen, and those pupils will have the chance to ask their question directly to Iolo himself.

Please send in your child's question via Seesaw or write it on a piece of paper and hand it to the class teacher.

We can't wait to see what the children come up with!

**Y Siarter Iaith! (Welsh Language Charter)**






| | |
|---|---|
| **Patrwm Iaith yr Wythnos**<br><br>**Alla i..? Alli di..? (Can I..? Can you..?)**<br><br>**Cei/ cewch (Yes you can/ No you can't)**<br><br>**Na chei/ Na chewch (No you can't)** | **Next week's language pattern**<br><br>**Alla i..? Alli di..? (Can I..? Can you..?)**<br><br>**Cei/ cewch (Yes you can/ No you can't)**<br><br>**Na chei/ Na chewch (No you can't)** |
| **Her**<br><br>**Tybed ga i? Oes modd i mi? (I wonder if I may? Is it possible for me?) Ydy hi'n gyfleus? (Is it convenient?)** | **Challenge**<br><br>**Tybed ga i? Oes modd i mi? (I wonder if I may? Is it possible for me?) Ydy hi'n gyfleus? (Is it convenient?)** |
| **Testun Trafod**<br><br>**Yr anrheg orau ges i erioed oedd... (The best present I ever had was...))** | **Discussion topic of the week**<br><br>**Yr anrheg orau ges i erioed oedd... (The best present I ever had was...)** |
| **Cân yr wythnos**<br><br>**Yws Gwynedd – Bae**<br><br>**https://www.youtube.com/watch?v=c_VZ43QsUvM** | **Song of the week**<br><br>**Yws Gwynedd – Bae**<br><br>**https://www.youtube.com/watch?v=c_VZ43QsUvM** |
| **Idiom yr Wythnos**<br><br>**Crynu yn ei esgidiau (Quaking in their boots)** | **Idiom of the week**<br><br>**Crynu yn ei esgidiau (Quaking in their boots)** |

**Ysgol Glan Morfa**
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk




**Prydlondeb / Punctuation**

Hoffem eich hysbysu am bwysigrwydd trefniadau prydlondeb yn y boreau. I'ch atgoffa, bydd y giat ochr yn cau am 08:40. Ar ôl yr amser hwn, bydd angen i bob disgybl ddod i mewn drwy ddrws ffrynt yr ysgol.
**Mae ein cofrestrau'n cau am 08:45**, ac felly os bydd eich plentyn yn cyrraedd ar ôl yr amser hwn, byddant yn cael eu nodi fel hwyr ar y gofrestr.

I'r Meithrin fe fydd y giat fach ar ochr y parc yn cau am 08.55yb ac os ydych yn cyrraedd ar ol hyn bydd angen i chi gerdded o amgylch y parc drwy brif gatiau'r ysgol i gyrraedd y Feithrin.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus wrth sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser ac yn barod i ddechrau'r diwrnod heb golli amser dysgu gwerthfawr na ymyrraethau allweddol.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth,

We would like to remind you about our punctuality arrangements. From now on, the side gate will close at 08:40. After this time, all pupils will need to enter the school through the main front door.



**Our class registers close at 08:45,** so if your child arrives after this time, they will be marked as late on the register.

For our Nursery pupils the side gate from the park will be closing at 08.55 daily. If you arrive after this time you will need to walk all the way around through our main entrance.

Thank you for your continued support in ensuring your child arrives at school on time and does not miss valuable learning time or key morning interventions.   Thank you for your co-operation.

**Nofio'r Urdd / Urdd Swimming**

*Ymunwch efo ni dros y Gwyliau yma! Mae'r Adran Nofio Yr Urdd yn cynnal Nofio Dwys i chi!*

| | | |
|---|---|---|
| ***C.H Dwyrain Llanrumney, CF3 4DN Oed 3+*** | ***£35 10:30 – 11:30 16/02 – 20/02/26*** | ***Sblash + Ton 1*** *10:30 – 11:00* ***Ton 2 + 3*** *11:00 – 11:30* |

*Join us this Half Term! The Urdd Swimming Department are running intensive swimming lessons just for you!*

| | | |
|---|---|---|
| **Eastern L.C, Llanrumney, CF3 4DN Age 3+** | **£35 10:30 – 11:30 16/02 – 20/02/26** | **Splash + Wave 1** 10:30 – 11:00 **Wave 1 + Wave 2** 11:00 – 11:30 |


**Ysgol Glan Morfa**
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

# Ysgol Glan Morfa

www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins















| Ionawr / January | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth?** | **What?** | **Dyddiad / Date** | **Amser / Time** |
| **Ymweliad Iolo Williams – Naturiaethwr/Cyflwynydd** | **Ymweliad Iolo Williams – Ornithologist / Naturalist/Presenter** | 28.1.26 | 10:00 – 11:00 |
| **Sesiwn gyda Awdur Caru Darllen Bl 5** | **Year 5 love reading author webinar.** | 28.1.26 | Prynhawn / Afternoon |

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Pennaeth/Headteacher:
Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy:
Miss Bethan Jenkins

| Chwefror | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth?** | **What?** | **Dyddiad / Date** | **Amser / Time** |
| **Blwyddyn 6 – Gwylio Sioe Billy Elliot (Bro Edern) – Gollwng y plant ym Mro Edern o 08:30 ymlaen** | **Year 6 – Watching Billy Elliott (Bro Edern) – Parents drop off pupils in Bro Edern from 08.30 onwards** | 2.2.26 | 08:30 – 11:00 |
| **Pel-droed Merched 5 a 6 – Primary Fives** | **Girls Years 5 & 6 Football Primary Fives** | 3.2.26 | 09:00 – 14:00 |
| **Eisteddfod Ysgol (Dewis I'r Urdd)** | **School Eisteddfod (Urdd Eisteddfod selection)** | 6.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 1** | **Year 1 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 9.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Dathliad P-Buzz Blwyddyn 3** | **pBuzz Celebration - Bl 3** | 10.2.26 | 13:00 – 15:00 |
| **Gweithdy Crochenwaith Rhieni a Disgyblion Dosbarth Derbyn** | **Reception Class Parent and Pupil Crockery Workshop** | 10.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 2** | **Year 2 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 11.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Dydd Miwsig Cymru – Alis Glyn yn perfformio** | **Welsh Music Day – Alis Glyn performing** | 13.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Hanner Tymor / Half Term**<br><br>**16.2.26 – 20.2.26** | | | |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 3** | **Year 3 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 23.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Rasio STEM – Rownd Derfynol – Sain Ffagan** | **STEM Racing – Regional Final – St Fagans** | 24.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 4** | **Year 4 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 25.2.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 5** | **Year 5 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 26.2.26 | Trwy'r dydd / All day |

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa

www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

| Mawrth | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth?** | **What?** | **Dyddiad / Date** | **Amser / Time** |
| **Dydd Gwyl Dewi – Pawb i wisgo gwisg draddodiadol / coch / Eisteddfod Ysgol** | **St David's Day (all to wear traditional costumes / red) / School Eisteddfod** | 2.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Celf gyda arlunydd Lio Cheung - Blwyddyn 6** | **Year 6 Art Workshop with the artist Lio Cheung** | 3.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdai Race Equality First** | **Race Equality First Workshop** | 4.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Taith Bl 1 I Pizza Express** | **Year 1 visit to Pizza Express** | 4.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Cyfarfod "Ein Senedd Ni" – Bae Caerdydd** | **Meeting of "Our Parliament" – Cardiff Bay** | 4.3.26 | Bore / Morning |
| **Dathlu Holi** | **Holi Celebration** | 4.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Blwyddyn 6 – Diwrnod Pontio 2 Ysgol Bro Edern** | **Year 6 – Transition Day #2 Ysgol Bro Edern** | 5.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Diwrnod y Llyfr – dim gwisgo fyny, dod a llyfr I'r Ysgol I gyfnewid.** | **World Book Day – no dressing up just bring a book to school to do a book swap.** | 5.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Eisteddfod Cylch Dwyrain Caerdydd – Ysgol Bro Edern** | **East Cardiff Local Eisteddfod – Ysgol Bro Edern** | 7.3.26 (Dydd Sadwrn / Saturday) | 09:00 |
| **Wythnos Wyddoniaeth** | **Science Week** | 9-13.3.26 | Trwy'r wythnos / All week |
| **Noson Rieni** | **Parents Evening** | 10.3.26 | 15:00 – 18:00 |
| **Noson Rieni** | **Parents Evening** | 11.3.26 | 15:00 – 18:00 |
| **Pel-droed yr Urdd Bechgyn - Bl 5 a 6** | **Boys Year 5 & 6 Urdd Football Competition** | 12.3.26 | |
| **Blwyddyn 5 – Storey Arms** | **Year 5 Storey Arms** | 16-18.3.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Eisteddfod Sir Dwyrain Caerdydd – Ysgol Bro Edern** | **East Cardiff County Eisteddfod – Ysgol Bro Edern** | 21.3.26 (Dydd Sadwrn / Saturday) | 09:00 |
| **Blwyddyn 4 – Rock Uk** | **Year 4 Rock Uk** | 23-25.3.26 | Trwy'r dydd / All day |

| Ebrill | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth?** | **What?** | **Dyddiad / Date** | **Amser / Time** |
| **Tim Deintydda** | **Dental Team** | 16.4.26 | Bore / Morning |
| **Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd** | **Urdd Rugby Tournament** | 20.4.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Lego Robotics - Gweithdy USW – Blynyddoedd 4-6** | **Lego Robotics – USW Workshops – Years 4-6** | 23.4.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Cystadleuaeth Rygbi TAG Merched yr Urdd** | **Urdd TAG Rugby Girls Tournament** | 20.4.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Celf a Chrefft yr Urdd** | **Urdd Arts and Crafts** | 23.4.26 | Trwy'r dydd / All day |